

MANIFFESTO GIRONA AR HAWLIAU IEITHYDDOL

Mae PEN Rhyngwladol yn dod ag ysgrifenyddyr y byd ynghyd. Datblygwyd y Maniffesto hwn gan Girona (Mai 2011) gan y Pwyllgor Trosi a Hawliau Ieithyddol, a'i gadarnhau gan Gyngres 77 Cynulliad Dirprwywyr Rhyngwladol PEN (Medi 2011). Mae'r Maniffesto hwn yn datgan deg egwyddor canolog ac arweiniol PEN Rhyngwladol ar hawliau ieithyddol.

1. Mae amrywiaeth ieithyddol yn dreftadaeth byd sydd angen ei werthfawrogi a'i amddiffyn.
2. Mae parch at bob iaith a diwylliant yn sylfaenol i'r broses o adeiladu a chynnal deialog a heddwch yn y byd.
3. Mae unigolion yn dysgu siarad yng nghalon cymuned sy'n rhoi iddynt fywyd, iaith, diwylliant a hunaniaeth.
4. Mae ieithoedd gwahanol a ffyrdd gwahanol o siarad nid yn unig yn fodd o gyfathrebu, maent hefyd yn rhan o'r amgylchfyd mae pobl yn tyfu ac adeiladu diwylliannau ynddo.
5. Mae gan pob cymuned ieithyddol yr hawl i'w hiaith gael ei ddefnyddio fel iaith swyddogol yn ei thiriogaeth.
6. Dylai addysg ysgol gyfrannu at urddas yr iaith a siaredir o fewn y tiriogaeth.
7. Mae'n ddymunol i ddinasyddion gael gwybodaeth gyffredinol o wahanol ieithoedd, oherwydd mae'n hybu empathi ac eangfrydedd ddeallusol, ac yn cyfrannu at wybodaeth ddyfnach o'u hiaith eu hunain.
8. Mae trosi testunau, yn enwedig gweithiau mawr gwahanol ddiwylliannau, yn cynrychioli elfen bwysig yn y broses angenrheidiol o ddatblygu dealltwriaeth a pharch ymysg bodau dynol.
9. Mae'r cyfryngau yn uchelseinydd breintiedig i wneud i amrywiaeth ieithyddol weithio ac i gynyddu ei bri yn gymwys a thrwyadl.
10. Dylai'r hawl i ddefnyddio ac amddiffyn eich iaith eich hun gael ei gydnabod gan y Cenhedloedd Unedig fel un o'r hawliau dynol sylfaenol.